Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Effaith yr achosion o COVID-19 ar y Gymraeg

Rhagfyr 2020

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn archwilio effaith yr achosion o COVID-19 ar y meysydd sydd o fewn ei gylch gwaith. Rhwng 24 Medi a 20 Hydref, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a chlywodd gan sefydliadau sy'n addysgu ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel genedlaethol a chymunedol.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn, ac mae'r sefydliadau a'r unigolion wedi'u rhestru yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad byr hwn yn crynhoi'r dystiolaeth ynghylch effaith y pandemig ar y Gymraeg.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw ailddyrannu cyllid y Gymraeg yn y tymor byr, oherwydd y pandemig, yn arwain at ddyraniadau cyllid tymor hwy a allai dynnu oddi ar gyflawni nodau Cymraeg 2050. Dylai Llywodraeth Cymru adfer y dyraniadau cyllideb ar gyfer cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn llawn, a hynny cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod swyddi sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ledled Cymru yn ganolog i'w chynllun ar gyfer adfer yr economi.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddaru ei chynllun gweithredu Cymraeg 2050 a'r cynllun gweithredu technoleg Cymraeg i adlewyrchu'r newid cyflym mewn dysgu Cymraeg, gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol ar-lein, sy'n hwyluso ei defnydd gartref ac yn cynyddu diddordeb yn yr iaith y tu allan i Gymru.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hyfforddiant ar gael i sefydliadau ac unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar-lein i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi eu haelodau.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei strategaeth ddigidol i adlewyrchu'r ffaith bod mwy o angen am wasanaeth rhyngrwyd cyflym a dibynadwy ledled Cymru yng ngoleuni'r ddibyniaeth gynyddol ar gynnwys digidol yn dilyn yr achosion o COVID-19.

**Argymhelliad 6.** Dylai cynllun gweithredu nesaf strategaeth Cymraeg 2050 ystyried yn llawn y newidiadau o ran cyfleoedd dysgu sydd bellach ar gael. Bydd angen iddo ystyried y ffyrdd y gellir cyfuno dysgu ar-lein a gwersi personol i weddu orau i ddysgwyr, a lefel y cyllid sydd ei angen i sicrhau y gellir cynnal y twf mewn dysgu ar-lein.

## Effaith economaidd canslo digwyddiadau diwylliannol

**1.** Clywodd y Pwyllgor gan sefydliadau sy'n gyfrifol am gynnal digwyddiadau byw, fel gwyliau, sydd wedi'u canslo oherwydd y pandemig. Mae'r effaith economaidd negyddol yn sgil canslo'r digwyddiadau diwylliannol hyn yn effeithio ar yr ardal leol yn ogystal â'r sefydliad. Er enghraifft, mae ymchwil annibynnol wedi dangos bod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn cynnig budd economaidd rhwng £6 miliwn ac £8 miliwn yn lleol.[1] Dywedodd Betsan Moses o'r Eisteddfod Genedlaethol wrth y Pwyllgor:

> 'Mi oedd gennym ni gytundebau gwerth £1.9 miliwn allan ar y pryd. Bu'n rhaid negydu gyda chyflenwyr ar gyfer eu symud nhw a phob dim.'[2] Ac mae '2,000 o swyddi yn rhannol neu'n ddibynnol ar yr Eisteddfod ar gyfer incwm, ac felly mi wnaeth hynny ddiflannu'.[3]

**2.** Rhybuddiodd hefyd fod llawer o gyflenwyr sy'n gweithio ar ddigwyddiadau blynyddol yn unig ac a fydd wedi colli eu holl incwm dros nos.[4] Aeth ymlaen i ddweud 'Yn sicr, mi fydd yn cymryd tan 2022 i gychwyn dod allan o hwn'.[5]

**3.** Yn yr un modd, dywedodd asesiad annibynnol mai gwerth economaidd cenedlaethol uniongyrchol Urdd Gobaith Cymru ('yr Urdd') yn 2017/18 oedd £8.6m,

---

[1] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/grwp-gorchwyl-a-gorffen-yr-eisteddfod-genedlaethol-adroddiad-ac-argymhellion.pdf

[2] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p39
[3] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p40
[4] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p42
[5] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p43

gyda chanolfannau preswyl Urdd yn cynhyrchu effaith economaidd o £6.9m yn 2018.[6] Dywedodd Siân Lewis o'r Urdd:

> 'ein sefyllfa ni, fel dŷch chi'n gwybod, yw ein bod ni wedi colli £14 miliwn o incwm, ac yn rhagweld hynny dros y ddwy flynedd nesaf, a mynd i fod mewn dyled o £3.5 miliwn. Mae hwn, yn naturiol, wedi cael effaith enfawr ar ein gweithlu ni, sydd wedi'n harwain ni i golli hanner ein gweithlu o 320 o staff… dŷn ni'n rhagweld y bydd ein colledion incwm ni dan fygythiad i gynyddu i ryw £18 miliwn o golled dros y blynyddoedd nesaf, a gan y bydd pobl ifanc yn methu â mynychu ein gwersylloedd ni'[7].

**4.** Dywedodd Helgard Krause o Gyngor Llyfrau Cymru:

> Jest i roi enghraifft i chi am yr effaith o golli'r Eisteddfod—mae'r tri llyfr mawr… yn gwneud lan dros £100,000 o werthiant… Ac, wrth gwrs, dŷch chi byth yn gwneud hyn lan. Mae wedi cael ei golli, mae wedi mynd, ac mae'r bwlch hwn yn parhau. I rai gweisg bach sydd ddim ond yn gallu cyhoeddi tri, pedwar, pum llyfr y flwyddyn, mae hwn yn gallu bod yn hanner eu hincwm nhw.'[8]

**5.** Aeth ymlaen i ddweud bod effaith colli incwm yn barhaus a 'dwi ddim yn gallu gweld y byddwn ni'n dod allan unrhyw le cyn 2022 hefyd—*at the earliest*'.[9]

**6.** Dywedodd Tegwen Morris o Merched y Wawr bod '[ein] incwm ni mwy neu lai wedi diflannu dros nos'.[10] Dywedodd:

> mae'r digwyddiadau rydyn ni'n arfer eu cynnal, fel cynnal raffl fawr neu'r penwythnos preswyl, sydd fel arfer yn dod ag incwm o tua £10,000 i mewn i'r mudiad, does dim un o'r rheini wedi medru cael ei gynnal. Felly, yn amlwg, rŷn ni'n gorfod edrych ar ddefnyddio'r arian a oedd gyda ni wrth gefn i sicrhau bod y mudiad yn gallu parhau am y

---

6 **https://www.urdd.cymru/files/7715/4219/7589/Asesiad_Effaith_Economaidd_yr_Urdd_09.11.18_English.pdf**

7 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p16

8 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p48

9 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p48

10 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p199

flwyddyn i ddod, a wedyn bydd sefyllfa economaidd anodd iawn yn ein hwynebu ni ymhen dwy flynedd hefyd.[11]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**7.** Ysgrifennodd Eluned Morgan AS, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, at y Pwyllgor ar 14 Gorffennaf mewn ymateb i gwestiynau ar y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2020-21. Ysgrifennodd:

> 'Er mwyn helpu economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru i ymateb yn gyflym i heriau eithriadol y pandemig, roedd angen ailflaenoriaethu cyllidebau sy'n cefnogi'r Gymraeg. Er bod hyn wedi bod yn heriol yn y byrdymor, rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y cyfnod hwn i wneud y gorau o gyfleoedd digidol a chyllid uniongyrchol i sefydliadau sydd ag anghenion dybryd. O ganlyniad, o fewn fy mhortffolio, cafwyd gostyngiad o £1.995m i gyllideb y Gymraeg a dyrannwyd £0.8m o gyllid a oedd wedi'i ailflaenoriaethu i'n digwyddiadau cenedlaethol eiconig o fewn cyllideb Digwyddiadau Cymru.'[12]

**8.** Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi £3.1m i'r Urdd. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> 'Ac mae hwnna wedi rhoi cyfle iddyn nhw nid jest i orffen y gwaith o ailadeiladu'r canolfannau yn Llangrannog a Glan-llyn, ond hefyd wedi rhoi cyfle iddyn nhw ddechrau ar Pentre Ifan, ac, wrth gwrs, mae hwnna wedi helpu i gefnogi 180 o swyddi'.[13]

**9.** Dywedodd y Gweinidog hefyd, 'roedd yna achlysur pryd yr oedd e'n edrych fel y byddai fe'n anodd iawn i'r Eisteddfod Genedlaethol barhau, a phe na byddai'r Llywodraeth wedi camu i mewn, ni fyddai yna Eisteddfod Genedlaethol yn y dyfodol... mae'n rhaid inni roi blaenoriaeth i rai pethau, ac mae hwn yn rhywbeth roedden ni wedi ei ystyried yn bwysig inni roi blaenoriaeth iddo.'[14]

**10.** Dywedodd y Gweinidog fod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawn wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig:

[11] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p183

[12] Gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru

[13] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 8 Hydref 2020, p30

[14] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 8 Hydref 2020, p32

> ‘Felly, dwi wedi sefydlu bwrdd crwn i ddatblygu'r economi, a dwi'n gwahodd pobl o lywodraeth leol, arweinwyr llywodraeth leol yng nghadarnleoedd y Gymraeg, i ddod ynghyd i drafod sut rŷn ni'n adeiladu'r economi, achos mae'r cysylltiad yna rhwng yr economi a'r iaith yn hollbwysig yn fy ystyriaeth i'.[15]

## Effaith y pandemig ar y gweithlu

**11.** Mae colli refeniw a chanslo digwyddiadau wedi cael effaith enfawr ar y rhai sy’n cael eu cyflogi gan y sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a'r busnesau y maent yn eu defnyddio.

**12.** Clywodd y Pwyllgor fod tri chwarter o staff yr Urdd ar ffyrlo. Erbyn diwedd mis Hydref, bydd wedi colli tua 150 o aelodau staff, a phan fyddant yn dychwelyd, bydd niferoedd ei staff wedi haneru. Dywedodd Siân Lewis y byddai'r gostyngiad wedi bod yn waeth o lawer heb gynllun ffyrlo Llywodraeth y DU.[16]

**13.** Dywedodd Lowri Jones fod 200 o'r 300 aelod o staff ar draws y Mentrau Iaith wedi bod ar ffyrlo. Dychwelodd canran uchel o'r bobl hynny i'r gwaith ym mis Medi pan ailagorodd ysgolion oherwydd eu bod yn gweithio ym maes gofal plant. Her benodol i'r Mentrau yw eu bod yn ddibynnol ar ysgolion a busnesau yn bod ar agor er mwyn aros yn hyfyw. Os bydd cau pellach, efallai y bydd yn rhaid iddynt ystyried dileu swyddi[17]. Aeth yn ei blaen i ddweud:

> 'fe fydd y cyfnod ar ôl mis Hydref yn anodd iawn os yw'r cynllun arbed swyddi'n dod i ben, fel dŷn ni'n disgwyl, o ran parhau i gynnal y gwasanaeth angenrheidiol yna i rieni, drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n ceisio dychwelyd i weithio neu'n cyfuno gweithio o gartref, ac yn y blaen. Ac, wrth gwrs, y gwerth mawr hefyd yw bod y swyddi yna'n swyddi cyfrwng Cymraeg o fewn sectorau penodol, a'n bod ni eisiau gweld gweithleoedd cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, nid yn crebachu'.[18]

**14.** Dywedodd Helgard Krause o Gyngor Llyfrau Cymru hefyd fod y cynllun ffyrlo wedi bod yn 'help mawr'[19] a bod tua hanner eu 45 aelod o staff wedi cael eu rhoi ar ffyrlo a bod pryderon ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd pan ddaw'r cynllun i ben. Dywedodd ei bod yn poeni am effaith bosibl colli swyddi ar Aberystwyth a

---

[15] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 8 Hydref 2020, p21

[16] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p115

[17] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p120

[18] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p121

[19] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p123

Cheredigion gan mai'r Cyngor Llyfrau yw un o'r unig sefydliadau sy'n cael eu rhedeg yn gyfan gwbl drwy gyfrwng Cymraeg, a'i fod yn gyflogwr mawr. Gofynnwyd i staff a ydynt eisiau torri eu horiau neu ymddeol yn gynnar. Dywedodd 'mae bendant angen wynebu bod yna—dŷn ni ddim yn mynd nôl i beth sydd wedi bod gyda ni, ac mae hwnna yn heriol, wrth gwrs'.[20]

**15.** Gofynnwyd i Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg, am effaith y posibilrwydd o ddileu swyddi. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i ystyried effaith ei holl ymyriadau ar y Gymraeg. Er enghraifft, dylai cymorth Llywodraeth Cymru i weithwyr llawrydd fod wedi cydnabod bod llawer mwy o weithwyr llawrydd yn gweithio yn y sector diwylliannol Cymraeg nag yn y sector di-Gymraeg.[21] Galwodd am gyfeirio gwell at y cyllid sydd ar gael ar gyfer mudiadau Cymraeg. Dywedodd Dyfan Sion o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg:

> 'y peth pwysig, rydw i'n meddwl, ydy bod y Gymraeg rŵan yn rhan o gynlluniau'r Llywodraeth o ran ailgodi wrth inni symud allan o'r argyfwng'.[22]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**16.** Cytunodd y Gweinidog fod achos arbennig dros roi cymorth i sefydliadau Cymraeg er mwyn iddynt gadw eu gweithlu. Dywedodd:

> 'Dwi'n meddwl bod yna achos cryf ac, wrth gwrs, y peth olaf rŷn ni eisiau gweld yw colli talent o'r sector…
>
> Beth sy'n anodd, wrth gwrs, yw bod yna gymaint o sectorau eraill sydd efallai yn yr un sefyllfa. Gallech chi wneud yr un achos o ran rhywun sy'n gweithio mewn maes celfyddydol sydd â thalent arbennig a buasen nhw'n cael eu colli hefyd. Felly, dyna'r broblem—bod cymaint o bobl yn yr un sefyllfa. Mi fyddwn ni'n gwneud yr achos yn yr un ffordd, ond bydd pob adran arall dwi'n siŵr yn gwneud yr achos dros pam y dylem ni gadw ein talent ni a diogelu hynny at y dyfodol.'[23]

[20] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p125

[21] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 1 Hydref 2020, p57

[22] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 1 Hydref 2020, p57

[23] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 8 Hydref 2020, p51

**Ein barn ar effaith economaidd y pandemig**

Roedd pob un o'r sefydliadau y clywodd y Pwyllgor ganddynt wedi colli incwm sylweddol o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r cyrff hyn yn dibynnu ar gynnal gweithgareddau rheolaidd yn y gymuned, ynghyd â digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol i gynhyrchu incwm ac yn bwysicach fyth i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant. Roedd consensws y bydd y sefyllfa'n cael effaith hirdymor ar eu gallu i gyflawni eu swyddogaethau craidd, ond ei bod yn annhebygol y byddai'r effaith tymor byr yn cael ei datrys lawer cyn 2022.

Mae buddion economaidd llawer o'r gweithgareddau diwylliannol yn mynd ymhellach na dim ond ffrydiau refeniw'r sefydliadau dan sylw. Mae'r digwyddiadau hyn yn cefnogi siopau, caffis, atyniadau twristaidd a llety lleol. Nid yw symud i ddigwyddiadau ar-lein yn gallu cefnogi'r deiliaid stondinau, yr artistiaid a'r perchnogion gwestai sy'n dibynnu ar yr incwm o wyliau blynyddol.

Pwysleisiodd y sefydliadau y gwnaethom ni siarad â nhw pa mor gyflym y maent wedi colli refeniw a ffioedd aelodaeth, a faint y maent wedi'i golli. Roedd ansicrwydd a phryder ynghylch y rhagolygon. Hynny yw, heb amserlen glir o ran pryd y gallant gynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb, ni allant wneud unrhyw gynlluniau ystyrlon ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei dyraniadau cyllid presennol i'r mudiadau cenedlaethol sydd wedi colli incwm yn sydyn ac yn ddifrifol, a hynny i sicrhau eu bod yn hyfyw yn mynd i mewn i 2021. Dylid mynd ati'n rheolaidd i adolygu penderfyniadau i ail-flaenoriaethu cyllid tymor byr, er enghraifft, yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gyda'r bwriad o adfer dyraniadau cyllid yn llawn unwaith y bydd y pandemig ar ben.

**Cymorth i'r gweithlu**

Mae llawer o'r rhai sy'n gweithio i sefydliadau a chymdeithasau sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi defnydd o'r iaith wedi elwa o gynllun ffyrlo Llywodraeth y DU. Drwy gydol ein hymchwiliad i effaith y pandemig ar feysydd sydd o fewn ein cylch gwaith, rydym wedi argymell yn gyson y dylid cynnal y Cynllun Cadw Swydd drwy gyfnod y Coronafeirws. Bydd yn cymryd misoedd lawer i fusnesau ac elusennau allu dychwelyd i weithgareddau cyn y cyfnod clo, felly dylai'r cymorth a gânt i'w cyflogeion adlewyrchu hyn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu parhad y cynllun tan fis Mawrth 2021.

Heb y cymorth hwn, mae'n bosibl y bydd gweithwyr medrus yn cael eu colli o'r sector am byth, a phan fydd sefydliadau'n dychwelyd i’r sefyllfa 'normal' byddant yn ei chael hi'n anodd iawn llenwi'r swyddi gwag hynny.

Mae swyddi yn y sector hwn yn arbennig o fregus. Swyddi proffesiynol medrus cyfrwng Cymraeg yw'r rhain, yn aml wedi'u lleoli y tu allan i ganolfannau trefol fel Caerdydd. Er mwyn cefnogi cadarnleoedd y Gymraeg, mae'n hanfodol nad ydym yn caniatáu i'r pandemig hwn gyfrannu at siaradwyr Cymraeg yn mudo o'r ardaloedd hyn. Dylai cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gadw a dod o hyd i gyflogaeth addas yn eu cymunedau fod yn flaenoriaeth. Gallai methu â diogelu’r swyddi hyn danseilio’n ddifrifol nodau Cymraeg 2050 a’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Am y rheswm hwn, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod swyddi sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg yn ganolog i'w chynllun ar gyfer adfer yr economi.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw ailddyrannu cyllid y Gymraeg yn y tymor byr, oherwydd y pandemig, yn arwain at ddyraniadau cyllid tymor hwy a allai dynnu oddi ar gyflawni nodau Cymraeg 2050. Dylai Llywodraeth Cymru adfer y dyraniadau cyllideb ar gyfer cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn llawn, a hynny cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod swyddi sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ledled Cymru yn ganolog i'w chynllun ar gyfer adfer yr economi.

## Y cynnydd mewn darpariaeth ddigidol o ganlyniad i'r cyfnod clo

**17.** Clywodd y Pwyllgor fod y cyfnod clo wedi gorfodi sefydliadau i ymgysylltu ag aelodau yn ddigidol, ac er y bu hyn yn heriol, mae wedi’u galluogi i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

**18.** Unwaith y cyhoeddwyd y cyfnod clo, dangosodd mudiadau gryn arloesedd a hyblygrwydd drwy symud eu gweithgareddau ar-lein. Er enghraifft, cynhaliodd yr Urdd Eisteddfod T, a oedd yn gymysgedd o gystadleuaeth a pherfformiadau o gartrefi a gerddi cystadleuwyr ac artistiaid. Roedd yn cynnwys 7,000 o gystadleuwyr dros 27 o oriau darlledu ar S4C a Radio Cymru.[24]

[24] Tystiolaeth ysgrifenedig Urdd Gobaith Cymru

**19.** Cynhaliodd Tafwyl ŵyl o Gastell Caerdydd a oedd â chynulleidfa fyd-eang, gyda mwy nag 8,000 yn gwylio drwy'r platfformau amrywiol, gan gynnwys AM, YouTube a Facebook. Mae gwerthusiad o ŵyl ddigidol 2020 yn nodi:

> 'A hithau'n gyfnod pryderus i'r celfyddydau, artistiaid, a'r diwydiant digwyddiadau byw, bydd yr ŵyl yn darparu platfform diwylliannol hanfodol a chefnogaeth i'r diwydiant ar adeg pan mae ei angen fwyaf.'[25]

**20.** Aeth y Sioe Frenhinol ar-lein hefyd, gyda chymysgedd o weithdai a gweithgareddau o'r archif, wedi'u recordio ymlaen llaw ac yn fyw.[26]

**21.** Fe wnaeth Merched y Wawr barhau i gynhyrchu copi caled o'u cylchgrawn, 'Y Wawr', a chynhyrchu podlediadau yn seiliedig ar eu cynnwys, gyda dros 10,000 o wrandawiadau yn ystod y chwe wythnos gyntaf. Maent bellach yn gweithio i gynnig hyfforddiant sylfaenol i aelodau sydd eisiau datblygu eu sgiliau cyfathrebu digidol.[27]

**22.** Yn yr un modd, defnyddiodd yr Eisteddfod Genedlaethol blatfformau ar-lein hefyd i gynnal yr ŵyl o dan y faner AmGen. Roedd hyn yn cynnwys cymysgedd o drafodaethau panel byw ar Zoom, darlithoedd wedi'u recordio ymlaen llaw, gweithdai, cerddoriaeth a chelf. Denodd AmGen gynulleidfa ryngwladol, gyda dros 360,000 yn gwylio ar YouTube.[28]

**23.** Ysgrifennodd yr Eisteddfod Genedlaethol y gallai'r cynnydd yn y cynnwys digidol sydd ar gael ar YouTube fod wedi datrys problemau presennol. Er enghraifft, gall cynulleidfaoedd bellach wylio digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd. Dywedodd Betsan Moses y bydd camau'n cael eu cymryd i ystyried cynnig digidol i apelio at gynulleidfaoedd ehangach. Ysgrifennodd:

> Dros nos, bu'n rhaid i ni newid o fod yn sefydliad wyneb yn wyneb i fod yn gorff a oedd yn gweithredu'n gyfan gwbl dros y we a thrwy dechnoleg. Ychydig wythnosau ar ôl i lansio AmGen, roedd yr ymateb yn glir, fod rhaid i ni gynnig rhagor o wasanaethau digidol yn y dyfodol.[29]

---

[25] https://tafwyl.org/cy/gwerthusiad-tafwyl-digidol-2020/

[26] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p186

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig Merched y Wawr

[28] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Eisteddfod Genedlaethol

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Eisteddfod Genedlaethol

**24.** Yn yr un modd, dywedodd Siân Lewis o'r Urdd: 'mae wedi agor y drysau inni feddwl yn wahanol, a sicrhau ein bod ni yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd'.[30]

## Anfanteision darpariaeth ar-lein yn unig

**25.** Dywedodd pawb a roddodd dystiolaeth wrth y Pwyllgor fod problemau gyda chysylltedd y rhyngrwyd wedi atal rhai cynulleidfaoedd rhag manteisio i'r eithaf ar yr allbwn digidol a'r gweithgareddau ar-lein sy'n cael eu darparu.

**26.** Er enghraifft, cafodd cynulleidfaoedd yr Eisteddfod drafferth yn cael mynediad at gynnwys oherwydd problemau cysylltiad. Ysgrifennodd Betsan Moses:

> 'Mae tlodi digidol yn dal i fodoli yng Nghymru. Nid pawb sydd â mynediad i fand eang derbyniol, ac nid pawb sydd â theclynnau lle mae modd gwylio rhaglenni ar-lein. Mae'r broblem o dlodi digidol yn ein poeni, gan fod cysylltiad gwael â'r we neu fand eang cryf yn aml yn digwydd mewn ardaloedd gwledig, ac yn draddodiadol, mae trigolion yn gefnogwyr naturiol a brwd o'r Eisteddfod.'[31]

**27.** Gwnaeth Mentrau Iaith, y Clwb Ffermwyr Ifanc a Chymdeithas yr Iaith sylw hefyd am yr angen am gysylltiadau dibynadwy â'r we, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Cymru lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Dywedodd Caryl Haf o'r Clwb Ffermwyr Ifanc:

> 'Mae nifer o'n ffermwyr ni, nifer o'n haelodau ni, yn byw mewn mannau lle does yna ddim signal ffeibr. Mae sbid y broadband—wel, dwi'n credu y gallwn i gerdded yn gyflymach nag e yn ambell i fan, ac mae hynny yn rhwystro ein haelodau ni rhag ymuno ag ambell i gyfarfod.'[32]

**28.** Galwyd am fuddsoddi yn y seilwaith i ddarparu mynediad mwy dibynadwy i'r rhyngrwyd. Galwodd Merched y Wawr am 'fuddsoddiad mewn rhyngrwyd mwy effeithiol ar draws Cymru'.[33] Hefyd, tynnodd Cyngor Llyfrau Cymru sylw at yr angen am well mynediad mewn ardaloedd gwledig, gan ysgrifennu:

> 'mae ansawdd y band eang yn amrywio yn dibynnu ar y lleoliad, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig mwy anghysbell. Byddai cyflwyno

---

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Urdd

[31] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Eisteddfod

[32] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p230

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig Merched y Wawr

> band eang ffibr cyflym iawn ledled Cymru yn fuddiol iawn i'r sector yr ydym yn ei gynrychioli gan fod cynifer o fusnesau a chyflenwyr i'r sector wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig'.[34]

## Pwysigrwydd digwyddiadau wyneb yn wyneb

**29.** Roedd mwyafrif y sefydliadau a oedd wedi symud i ddarpariaeth ddigidol yn ystod y pandemig yn bwriadu canolbwyntio ar gynnal eu digwyddiadau 'traddodiadol wyneb yn wyneb' yn y dyfodol, ynghyd ag adeiladu eu cynulleidfaoedd a'u cynnwys ar-lein newydd.

**30.** Roedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn glir y bydd ei digwyddiad bob amser yn wyneb yn wyneb, gan ddod ynghyd i ddathlu diwylliant Cymru. Fodd bynnag, mae eisiau manteisio ar y gynulleidfa ryngwladol a'r gallu i bobl fwynhau'r holl weithgareddau yn yr Eisteddfod yn ôl eu hwylustod.[35]

**31.** Pwysleisiodd Mentrau Iaith hefyd bwysigrwydd eu gweithgaredd wyneb yn wyneb:

> 'Mae cynnal gweithgaredd yn y gymuned yn hanfodol bwysig ac yn fuddiol i unigolion, yr economi a'r gymuned gyfan. Mae'r argyfwng iechyd diweddar wedi profi pa mor llwyddiannus y gall digwyddiadau a gweithgareddau ar-lein fod a rhagwelir y bydd angen buddsoddiad mewn technoleg ddigidol'.[36]

**32.** Rhybuddiodd Merched y Wawr, wrth iddynt gynyddu eu gweithgaredd ar gyfryngau cymdeithasol, fod yn 'rhaid bod yn wyliadwrus nad ydym yn eithrio aelodau hŷn a bregus a hefyd rhai nad sy'n medru fforddio'r dechnoleg ddiweddaraf'.[37]

**33.** Dywedodd Caryl Haf o'r Clwb Ffermwyr Ifanc fod canslo digwyddiadau wyneb yn wyneb yn arwain at fwy na cholled economaidd. Dywedodd:

> 'mae hefyd yn gwneud yn siŵr bod pawb yn iawn yn eu cymunedau; gwneud yn siŵr bod pawb yn dod at ei gilydd a chyfle i bawb i gymdeithasu gyda'i gilydd a phawb i allu siarad gyda'i gilydd'.[38]

---

[34] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Llyfrau Cymru

[35] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Eisteddfod Genedlaethol

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig y Mentrau Iaith

[37] Tystiolaeth ysgrifenedig Merched y Wawr

[38] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p175

a

> 'Mi fydd gyda ni eisteddfod rithiol ond… dyw pethau rhithiol, efallai, ddim cystal â gweld pobl wyneb yn wyneb. Mae yna bobl yn cuddio tu ôl i gamera, neu efallai ddim mor hapus i leisio eu barn neu i siarad trwy gyfrwng y Gymraeg dros y cyfrifiadur.'[39]

**34.** Tynnodd Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg, sylw hefyd at bwysigrwydd gweithgareddau wyneb yn wyneb, gan ddweud:

> 'bod yna beryg bod rhai pobl yn cael eu heithrio o'r sefyllfa ddigidol a'n bod ni ddim yn creu sefyllfa lle, yn awtomatig, rydym ni'n mynd drosodd i greu pob peth yn ddigidol. Mae'n bwysig ein bod ni'n cynnal y ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb hefyd, sydd yn bwysig nid yn unig o ran yr iaith ond yn bwysig o ran iechyd meddwl a phethau cymdeithasol hefyd'.[40]

## Yr angen am sgiliau a thechnoleg

**35.** Nododd cyfranwyr bod angen hyfforddiant yn y sgiliau sy’n angenrheidiol i fanteisio’n llwyddiannus ar gyfleoedd ar-lein. Er enghraifft, ysgrifennodd Mentrau Iaith:

> ‘Byddai gallu cael mynediad at hyfforddiant sgiliau digidol amrywiol gan gynnwys sgiliau sylfaenol ac uwch, trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i fudiadau addasu at waith ar-lein, wedi bod yn fanteisiol iawn..’[41]

**36.** Er mwyn gwneud y gorau o ddarparu mynediad digidol i'r ŵyl, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn galw am fwy o arian ac arbenigedd:

> 'Yn bendant, byddai costau ychwanegol i’r Eisteddfod ar ben trefnu a chynnal yr ŵyl ei hun, gan fyddai’n rhaid i ni sicrhau bod gennym ni dîm o arbenigwyr technegol a golygyddion yn gweithio gyda ni.'[42]

**37.** Mae rhai sefydliadau wedi dechrau darparu'r hyfforddiant angenrheidiol i staff. Er enghraifft, yn dilyn llwyddiant ei dudalennau Facebook a'i bodlediadau, mae mudiad Merched y Wawr bellach yn gweithio gyda phartneriaid amrywiol i gynnig hyfforddiant sylfaenol i aelodau sydd am ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu

---

[39] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p154

[40] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 1 Hydref 2020, p52

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig y Mentrau Iaith

[42] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Eisteddfod

digidol. Mae'r rhain yn cynnwys Addysg Oedolion Cymru a Cymunedau Digidol Cymru'.[43]

**38.** Dywedodd Bethan Ruth Roberts, Cymdeithas yr Iaith, yr hoffai ei sefydliad fuddsoddi mewn offer dylunio a chyfathrebu. Esboniodd bwysigrwydd ymgysylltu â phobl ar-lein:

> Mae dylanwad llwyfannau cyfryngol newydd fel YouTube yn cael effaith fawr ar ddefnydd iaith, yn enwedig ymysg pobl ifanc, ac mae ein haelodau ni... wedi sylwi ar yr effaith yma, gan nad oes cynnwys mewn nifer o achosion—cynnwys rhad iawn ei natur—yn cael ei gynhyrchu yn y Gymraeg...
>
> Felly, dŷn ni'n credu dylid gwario hyd at £9 miliwn ar sefydlu a chynnal menter ddigidol Cymraeg, a hynny gyda'r nod o gynyddu cyfleoedd i weld, clywed a chreu a defnyddio'r Gymraeg ar y we yn ddigidol ar draws llwyfannau.'[44]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**39.** Fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol gymeradwyo'r gwaith y mae'r sector yn ei wneud o ran newid i gynnal eu gweithgareddau ar-lein. Dywedodd 'mae pobl wedi dod i'r adwy yn ystod y cyfnod yma, a hefyd wedi rhoi cyfleoedd i'r Gymraeg i ddisgleirio.'[45] Dywedodd wrth y Pwyllgor y bydd cynllun gweithredu nesaf Cymraeg 2050 yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny:

> 'I think it's made us all respond differently. I think we've recognised we're going to have to do a lot more digitally. I think that that is definitely a shift; we need to understand that, if we're going to shift to a more digital form of communication, we need to make sure that the facilities exist—technical facilities exist—to ensure that that is possible and it's easy for people.'[46]

**40.** Wrth ymateb i gwestiwn am yr angen i gau'r bwlch digidol, dywedodd:

> 'Rwy'n meddwl bod chi'n eithaf reit, ac, wrth gwrs, mae'r ffaith ein bod ni fel Llywodraeth wedi rhoi cymaint o filiynau i fewn i sicrhau bod

[43] Tystiolaeth ysgrifenedig Merched y Wawr

[44] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 24 Medi 2020, p235

[45] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 8 Hydref 2020, p10

[46] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 8 Hydref 2020, p90

band eang ar gael i fwy o bobl, er dyw hi ddim yn ddyletswydd arnom ni fel Llywodraeth i wneud hynny, er ei bod hi'n ddyletswydd ar y Llywodraeth Brydeinig i'w wneud e, rŷm ni'n meddwl bod e mor bwysig, rŷm ni wedi rhoi arian—lot fawr o arian, miliynau ar filiynau—i sicrhau bod band eang ar gael yn fwy. Mae yna yn dal, fel rŷch chi'n dweud, canolfannau lle dyw e ddim ar gael, felly mae'n bwysig ein bod ni'n parhau i wthio ymlaen gyda hynny.'[47]

**41.** Mewn ymateb i'r angen i sicrhau bod gan bobl sgiliau i fanteisio ar ddarpariaeth ddigidol, dywedodd y Gweinidog mai un o'r pethau y mae hi'n arbennig o bryderus yn ei gylch yw'r cyfle i bobl hŷn ennill y sgiliau angenrheidiol. Dywedodd ei bod yn fater anodd i fynd i'r afael ag ef yn ystod y pandemig ond y bydd yn rhaid ei ystyried unwaith y bydd ar ben.[48]

**42.** Gan ymateb i'r angen am adnoddau i gefnogi dysgu digidol, dywedodd y Gweinidog fod £3.1m wedi'i ddarparu ar gyfer adnoddau addysgol i blant eu defnyddio yn Gymraeg. Nododd fod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi datblygu partneriaeth â Say Something in Welsh, sy'n cynnig cyfleoedd i rannu adnoddau digidol.[49]

**43.** Wrth ymateb i gwestiwn am y gostyngiad yn sgil canslo digwyddiadau diwylliannol mewn cyfleoedd i bobl siarad Cymraeg yn gymdeithasol mewn ardaloedd lle nad yw'r iaith yn cael ei siarad yn eang, dywedodd:

Mi wnaethom ni'r gwaith o sicrhau bod plant a rhieni plant yn gwybod bod yna gyfleoedd iddyn nhw wrando ar y Gymraeg ar-lein. Os ydych chi'n edrych ar S4C, mae miloedd o bobl yn ychwanegol wedi bod yn gwylio'r sianel yn arbennig fel sianel ddigidol.'[50]

### Ein barn ar symud i ddarpariaeth ar-lein

Clywodd y Pwyllgor fod y cyfnod clo wedi gorfodi sefydliadau sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn y gymuned i symud eu gweithgareddau ar-lein bron dros nos. Hoffem gymeradwyo'r holl sefydliadau sydd wedi cyfrannu at yr ymchwiliad hwn am fod mor ystwyth yn addasu i'r newid sydyn mewn amgylchiadau. Nid oes amheuaeth bod symud ar-lein wedi galluogi dysgwyr

[47] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 8 Hydref 2020, p80
[48] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 8 Hydref 2020, p82
[49] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 8 Hydref 2020, p57
[50] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 8 Hydref 2020, p41

Cymraeg, cymunedau Cymraeg eu hiaith ac aelodau o glybiau a chymdeithasau i barhau i gwrdd yn ystod cyfnod anodd pan fyddent efallai fel arall wedi teimlo'n ynysig.

Mae mwy o ddarpariaeth ar-lein wedi golygu cyrhaeddiad daearyddol ehangach. Clywsom am bobl ledled y byd yn cymryd rhan mewn grwpiau Facebook, ac yn gwylio Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu ar y llwyddiant hwn ac yn cynnal y platfformau a'r cynnwys i barhau i ddenu a thyfu ein cynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol.

Fodd bynnag, mae symud i weithgaredd ar-lein fel hyn yn golygu bod perygl o eithrio rhai siaradwyr Cymraeg hŷn a bregus. Gallai hefyd eithrio llawer o gymunedau gwledig lle nad yw'r gwasanaeth band eang yn diwallu'r angen, yn ogystal ag ardaloedd yng Nghymru lle mae cyfleoedd i ryngweithio â'r iaith yn gyfyngedig ac yn aml yn dibynnu ar weithgareddau wyneb yn wyneb.

Ni all y twf mewn darpariaeth ar-lein gymryd lle yn llwyr y gwersi iaith, y gwyliau, y digwyddiadau a'r cyfarfodydd wythnosol wyneb yn wyneb sy'n cynnal ein cymunedau Cymraeg. Mae llawer o aelodau'n aros am y cyfle i ddod at ei gilydd eto a dathlu ein diwylliant ar y llwyfan neu gymdeithasu mewn neuadd bentref unwaith yn rhagor. O ystyried mai'r angen am ddysgu wyneb yn wyneb a gweithgareddau cymdeithasol yw prif swyddogaeth y mudiadau y clywsom ganddynt, mae'n amlwg y bydd darpariaeth ar-lein yn ychwanegiad at weithgaredd wyneb yn wyneb, yn hytrach na chymryd ei le.

Bydd angen mwy o gyllid i gynnal y ddwy elfen, ac mae angen mynd i'r afael â hyn ar frys. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i beidio â lleihau cyllid craidd i'r sector hwn oherwydd canfyddiad bod gweithgaredd wedi 'symud' i fod ar-lein. Bydd yr angen am hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol i ddiwallu'n effeithiol yr her o gynnig darpariaeth ar-lein yn effeithiol yn gofyn am gynnydd tymor byr mewn cyllid.

Un o'r bygythiadau mwyaf i ddarparu dysgu digidol yn llwyddiannus yw diffyg darpariaeth rhyngrwyd ddibynadwy. Mae hyn yn effeithio ar bob gweithgaredd economaidd, nid dim ond y Gymraeg. Cymunedau gwledig sydd fwyaf mewn perygl o gael eu heithrio'n ddigidol. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o bwyslais ar y cysylltiad rhwng seilwaith digidol ym mhob rhan o Gymru a chyflawni nodau Cymraeg 2050 yn llwyddiannus.

Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn cyfeirio at roi'r Gymraeg wrth galon arloesi ym maes technoleg ddigidol, ond mae'n rhaid bod y seilwaith i alluogi

mynediad i blatfformau digidol ar gael ac yn ddibynadwy yn y lle cyntaf. Mae angen adlewyrchu hyn yng Nghynllun Gweithredu pum mlynedd nesaf Cymraeg 2050.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda S4C, i fynd i'r afael â'r angen am hyfforddiant ym maes darpariaeth ddigidol ar gyfer gweithgareddau dysgu a chymdeithasol Cymraeg. Dylai'r hyfforddiant hwn fod ar gael i fudiadau elusennol, sefydliadau cenedlaethol ac unigolion sy'n dymuno hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant. Bydd angen i'r gwaith o adeiladu ar y llwyddiant o gyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol gydag allbwn cyfrwng Cymraeg yn ystod y pandemig ddigwydd ar sawl lefel, o unigolion a chlybiau cymdeithasol yn ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol i ddarlledu gwyliau cenedlaethol ar YouTube. Heb y gallu i gynhyrchu cynnwys, rydym mewn perygl o golli'r momentwm rydym wedi'i ddechrau.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddaru ei chynllun gweithredu Cymraeg 2050 a'r cynllun gweithredu technoleg Cymraeg i adlewyrchu'r newid cyflym mewn dysgu, gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol Cymraeg ar-lein, sy'n hwyluso ei defnydd gartref ac yn cynyddu diddordeb yn yr iaith y tu allan i Gymru.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hyfforddiant ar gael i sefydliadau ac unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar-lein i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi eu haelodau.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei Strategaeth Ddigidol i adlewyrchu ffaith bod mwy o angen am wasanaeth rhyngrwyd cyflym a dibynadwy ledled Cymru yng ngoleuni'r ddibyniaeth gynyddol ar gynnwys digidol yn dilyn yr achosion o COVID-19.

## Effaith ar ddysgu iaith

**44.** Trafododd y Pwyllgor yr effaith ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn rhagweld mai addysg fydd y prif ysgogydd ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

**45.** Cyflwynodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ('y Coleg') dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor i amlinellu'r mesurau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod y ddarpariaeth addysg gyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-orfodol yn parhau i fod ar gael. Dywedodd y Coleg, 'Un o bryderon mwyaf y Coleg yw y bydd dysgwyr yn llai tebygol o ddewis darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog wrth ddechrau mewn

coleg neu brentisiaeth yn mis Medi gan nad ydy nifer ohonynt wedi bod mewn awyrgylch Cymraeg ers dechrau'r cyfnod clo'.[51]

**46.** O ran addysg uwch, mae wedi ymestyn ei gynllun ysgoloriaeth cymhelliant o'r 200 o ddisgyblion arferol i dargedu 500 o ddisgyblion. Mae wedi darparu hyfforddiant ar-lein i ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg ynghylch addysgu ar-lein. Fe wnaeth y Coleg ymgynghori â darlithwyr i nodi bylchau tymor byr mewn adnoddau digidol, gyda'r bwriad o gomisiynu 'deunyddiau dysgu cyfunol o ansawdd uchel mewn nifer benodol o bynciau', ond mae'n dweud y bydd angen adnoddau ychwanegol i gyflawni hyn.[52]

**47.** Mae'r Coleg yn rhybuddio mai 'diffyg adnoddau digidol Cymraeg a dwyieithog yw un o'r prif heriau sy'n wynebu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog' ym maes addysg bellach a phrentisiaethau.[53] Mae'r Coleg wedi rhoi adnoddau perthnasol ar y 'Porth Adnoddau' newydd ond mae'n galw am gynllun cenedlaethol i nodi a chomisiynu adnoddau ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr. Yn y cyfamser, mae'r Coleg yn cydgysylltu adnoddau ar gyfer meysydd blaenoriaeth fel gofal iechyd, gofal plant a gwasanaethau cyhoeddus.

**48.** Ymatebodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i'r galw cynyddol am wersi Cymraeg drwy gyfuno dysgu o bell dan arweiniad tiwtor a dysgu ar-lein, gan arwain at gofrestru 1,300 o ddysgwyr ac 89 o ddosbarthiadau newydd. Ers mis Mawrth, mae bron i 8,000 o bobl wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau blasu ar-lein, sef mwy nag yn y tair blynedd flaenorol gyda'i gilydd.

**49.** Fodd bynnag, cafodd symud i ddarpariaeth ar-lein ac oedi gwersi wyneb yn wyneb effaith ar gyllideb y Ganolfan. Ysgrifennodd Efa Gruffudd Jones o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol:

> Yn gynnar yn y cyfnod trawsnewid (diwedd Mawrth 2020), bu i'r Ganolfan drafod lleihad yn ei chyllid gyda Llywodraeth Cymru wrth i'r Llywodraeth ystyried ei gyllidebau ei hun, a'i ymateb i'r pandemig. Canlyniad hyn oedd lleihad i gyllideb y Ganolfan o £1.687 miliwn rhwng Ebrill 2020 a Awst 2021, gyda 46% (£1.145m) wedi ei dorri oddi ar gyllideb cynllun Cymraeg Gwaith. Bydd y Ganolfan felly yn gorfod atal rhai o'i chynlluniau a bydd yn ystyried cynnig cyfleoedd i weithwyr ddysgu Cymraeg mewn dull wahanol dros y cyfnod nesaf.

[51] Tystiolaeth ysgrifenedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

[52] Tystiolaeth ysgrifenedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

[53] Tystiolaeth ysgrifenedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae’r Ganolfan yn gobeithio mai toriad dros dro yw hwn, a bod yr ymateb yn ystod y cyfnod diwethaf wedi dangos bod galw gan y cyhoedd am wersi Cymraeg. Fodd bynnag, mae trafodaethau am doriadau pellach yn y gyllideb yn parhau.'[54]

**50.** Nid oes amheuaeth bod canslo digwyddiadau fel Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a’r Sioe Frenhinol wedi lleihau'r cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau. Er iddo rybuddio ei bod yn rhy gynnar i ddweud beth fu effaith lawn y pandemig ar y Gymraeg, dywedodd Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg:

'mae'r holl ohirio yma o ran digwyddiadau yn amharu ar gyfleoedd pobl sydd yn rhugl yn y Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg, ond hefyd, yn amlwg, pobl sydd yn dysgu'r iaith.'[55]

**51.** Gwnaeth sylw ar dorri cyllideb rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol drwy bwysleisio'r angen i uwchsgilio'r gweithlu, gan ddweud:

'rydyn ni hefyd yn awyddus, os oes yna fwriad bod dysgu o ran y Gymraeg yn symud yn gyfan gwbl ar-lein, ein bod ni hefyd yn ailgydio yn y rhaglen Cymraeg Gwaith'.[56]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**52.** Gwnaeth Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol sylw ar y cyllid ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Dywedodd:

‘roedden nhw wedi gorfod stopio dysgu pobl mewn dosbarthiadau. Nawr, o ganlyniad i hynny, roedd yna ffordd iddyn nhw arbed arian, ac felly roedd hwnna'n gyfle inni gymryd arian oddi wrthyn nhw, achos, wrth gwrs, roedd e'n amhosibl iddyn nhw wario'r arian yna ar y pryd. Ond beth maen nhw wedi ei wneud yw cymryd y cyfle hefyd i addasu beth maen nhw'n ei wneud a gwneud lot mwy o waith ar-lein, ac mae hwnna wedi helpu dysgwyr i ddysgu yn ddigidol ac o bell, ac maen nhw wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y bobl sydd yn dysgu fanna.’[57]

---

[54] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Eisteddfod Genedlaethol

[55] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 1 Hydref 2020, p13

[56] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 1 Hydref 2020, p41

[57] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 1 Hydref 2020, p33

**53.** Dywedodd fod cyllid wedi'i ailgyfeirio o'r prosiect Cymraeg Gwaith pan nad oedd modd darparu gwersi i weithwyr y gwasanaeth iechyd oherwydd y pandemig. Roedd y cyllid hwn wedi'i hawlio'n ôl a'i ddarparu 'i'r mudiadau oedd mewn trafferth ariannol.'[58]

**Ein barn ar effaith y pandemig ar ddysgu**

Rydym yn cymeradwyo gallu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ymateb mor effeithiol i'r cynnydd mawr hwn yn y diddordeb mewn dysgu Cymraeg. Dywedodd y Ganolfan wrth y Pwyllgor fod ei benderfyniad cynnar i sefydlu platfform digidol, wedi'i ddylunio o amgylch y myfyriwr, wedi talu ar ei ganfed. Fodd bynnag, mae canslo dysgu wyneb yn wyneb wedi golygu toriad sylweddol yng nghyllideb y rhaglen Cymraeg Gwaith. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gwersi wyneb yn wyneb, yn enwedig mewn lleoliadau gofal iechyd lle mae cynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n gallu siarad Cymraeg yn hanfodol.

Bydd angen mynd ati'n iawn i asesu effaith y cyfnod clo ar ddysgu Cymru yn y gymuned ac yn y gweithle er mwyn lliniaru'r diffyg cyfleoedd i ddysgu wyneb yn wyneb. Yn yr un modd, dylid edrych ar y cynnydd enfawr yn nifer y bobl a oedd eisiau dysgu Cymraeg yn ystod y cyfnod clo, a'u gallu i gael gafael ar adnoddau ac addysgu ar-lein, er mwyn casglu enghreifftiau o arfer gorau.

Dylid diweddaru cynllun gweithredu strategaeth Cymraeg 2050 yng ngoleuni'r newid tuag at ddysgu ar-lein er mwyn manteisio ar y cyfleoedd i gyrraedd cynulleidfa ehangach a chefnogi taith dysgwyr tuag at fod yn rhugl.

**Argymhelliad 6.** Dylai cynllun gweithredu nesaf strategaeth Cymraeg 2050 ystyried yn llawn y newidiadau o ran cyfleoedd dysgu sydd bellach ar gael. Bydd angen iddo ystyried y ffyrdd y gellir cyfuno dysgu ar-lein a gwersi personol i weddu orau i ddysgwyr, a lefel y cyllid sydd ei angen i sicrhau y gellir cynnal y twf mewn dysgu ar-lein.

[58] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 1 Hydref 2020, p34

## Atodiad – Cyflwynwyd tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn gan yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn

| Enw | Sefydliad |
| --- | --- |
| Efa Gruffudd Jones | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| Bethan Ruth Roberts | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| Caryl Haf | Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru |
| Betsan Moses | Eisteddfod Genedlaethol Cymru |
| Helgard Krause | Cyngor Llyfrau Cymru |
| Lowri Jones | Mentrau Iaith Cymru |
| Siân Lewis | Urdd Gobaith Cymru |
| Tegwen Morris | Merched y Wawr |
| Aled Roberts | Comisiynydd y Gymraeg |
| Eluned Morgan AS | Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Llywodraeth Cymru |
| Gwenllian Griffiths | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol |